

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Morlais Health

Dyddiad y gweithgarwch: 06 Gorffennaf  
2021

Dyddiad cyhoeddi: 3 Medi 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Morlais Health fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Morlais Health yn darparu gwasanaethau meddyg teulu i dros 20,000 o gleifion yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae tair canolfan iechyd gan y gwasanaeth, dwy yn Nowlais ac un yn Nhroed-y-rhiw.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis ac un o'r meddygon teulu ar 06 Gorffennaf 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am y gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/syn wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a phrosesau i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?
- Pa mor effeithiol y gallwch gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd

---

ac y tu allan i oriau ar hyn o bryd?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wedi dechrau gwneud newidiadau i'w fodel gweithredu ychydig cyn i'r cyfyngiadau symud cenedlaethol gael eu rhoi ar waith ar ddechrau pandemig COVID-19. Dynodwyd un o'r tair canolfan iechyd, sef Ivor Street, yn barth 'coch' lle y byddai unrhyw gleifion a oedd yn dangos neu'n profi symptomau COVID-19 yn cael eu gweld. Roedd ystafell aros fawr yn y ganolfan honno er mwyn helpu'r cleifion i gadw pellter cymdeithasol, a rhoddwyd system un ffordd ar waith i leihau'r cyswllt rhwng y cleifion. Cafodd un o'r canolfannau iechyd mwy yn Nowlais ei rhannu'n ddau barth; cafodd pob tîm a oedd yn gweithio yn y ganolfan ei rannu'n ddau, a'i neilltuo i weithio yn un o'r parthau. Nid oedd y staff yn cael gadael eu parth. Roedd hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau i'r cleifion pe bai achosion o COVID ymhlith aelodau o'r staff yn un o'r parthau. Yn dilyn asesiad risg wedi'i ddiweddarau a gynhaliwyd ym mis Mai 2021, rhoddwyd y gorau i weithredu canolfan iechyd Ivor Street fel parth 'coch', a rhoddwyd mesurau ar waith i lacio'r gwahaniad rhwng y parthau yn Nowlais.

Cawsom wybod bod drysau ffrynt pob un o'r canolfannau iechyd wedi cael eu cadw ar glo ers dechrau'r pandemig er mwyn atal aelodau o'r cyhoedd rhag dod i mewn heb apwyntiad. Roedd dulliau amgen heblaw am apwyntiadau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnig i'r cleifion; Roedd y meddygon teulu yn cynnal ymgynghoriadau â chleifion dros y ffôn yn rheolaidd er mwyn asesu a oedd angen trefnu apwyntiad wyneb yn wyneb, ac roedd rhai ymgynghoriadau fideo yn cael eu cynnal hefyd.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19 drwy gydol y pandemig. Gwnaed hyn drwy sgysiau unigol rheolaidd a thrwy grŵp WhatsApp<sup>1</sup> y staff. Cawsom gopiau o gylchlythyrau'r staff a oedd wedi cael eu dosbarthu drwy gydol y pandemig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff am unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau ym mhob un o'r canolfannau iechyd.

Dywedodd y staff wrthym fod llai o ymweliadau â chleifion yn eu cartrefi eu hunain, a llai o

---

<sup>1</sup> Ap negeseua gwib aml-lwyfan yw WhatsApp, sy'n galluogi defnyddwyr ffonau clyfar i gyfnewid negeseuon testun, delweddau, fideo a sain am ddim.

---

ymweliadau gan feddygon teulu â chleifion mewn cartrefi gofal preswyl wedi cael eu cynnal yn ystod y pandemig. Byddai'r meddygon yn cynnal ymgynghoriadau dros y ffôn â'r cleifion gan amlaf, oni bai eu bod o'r farn bod angen trefnu ymweliad wyneb yn wyneb. Roedd yn ofynnol i'r meddygon teulu wisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol a dilyn canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol ar gyfer pob ymweliad.

Cawsom enghreifftiau o drefniadau cynnal a chadw adeiladau a roddwyd ar waith gan y gwasanaeth er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion a oedd yn ymweld â'r safleoedd, a sicrhau eu llesiant. Roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n iawn, ac roedd Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal yn ddiweddar er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Fel rhan o'r gwiriad ansawdd, gwnaethom ofyn am dystiolaeth o unrhyw asesiadau risg a gynhaliwyd gan y gwasanaeth mewn perthynas ag iechyd a diogelwch ac amgylchedd y canolfannau iechyd. Heblaw am y gwiriadau cynnal a chadw, ni chawsom unrhyw ddogfennaeth mewn perthynas â hyn. Felly nid oedd modd i ni gael sicrwydd am y ffordd y mae'r gwasanaeth yn monitro'r amgylchedd na'r ffordd y mae'n lliniaru unrhyw risgiau. Mae archwiliadau rheolaidd a ddogfennir yn bwysig er mwyn cadarnhau bod gwasanaeth yn parhau i gydymffurfio, yn arbennig yn ystod y pandemig pan gafodd newidiadau i'r amgylchedd a'r ffordd o ddarparu gwasanaethau eu rhoi ar waith. Rhaid i'r gwasanaeth roi sicrwydd i AGIC am y ffordd y mae'n nodi, yn asesu ac yn rheoli risgiau'n rheolaidd mewn perthynas ag iechyd, lles a diogelwch y staff a'r cleifion sy'n ymweld â'i safleoedd.

Dywedwyd wrthym fod rhai o'r meddygon teulu sy'n gweithio i Morlais Health yn gallu siarad Cymraeg, ond na fyddai'r staff yn gofyn i'r cleifion am eu dewis iaith wrth iddynt gyrraedd y canolfannau iechyd. Rhaid i'r gwasanaeth helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'<sup>2</sup> i'r cleifion er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr opsiwn i gyfathrebu yn eu dewis iaith, yn arbennig o ystyried bod meddygon teulu sy'n siarad Cymraeg ar gael.

## **Atal a rheoli heintiau**

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisiau atal a rheoli heintiau

---

<sup>2</sup> Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. <https://llyw.cymru/iechyd-a-gofal-cymdeithasol>

- 
- Archwiliadau / asesiadau atal a rheoli heintiau diweddar
  - Data ar hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar gyfer y staff.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth o bolisi atal a rheoli heintiau a phrotocol atal a rheoli heintiau a oedd yn disgrifio'r trefniadau cyffredinol a roddwyd ar waith gan y gwasanaeth i reoli'r risg o haint. Roedd y protocol yn amlinellu gweithdrefnau megis gweithdrefnau ar gyfer delio ag achosion o ollwng gwaed a thrin a chludo samplau'n ddiogel. Nodwyd gennym fod polisiau ar wahân ar gael mewn perthynas â hylendid dwylo effeithiol a thrin a gwaredu offer miniog yn ddiogel hefyd. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf ar atal a rheoli heintiau, yn unol â gofynion y polisi atal a rheoli heintiau.

Cawsom wybod bod y cleifion wedi bod yn cael eu sgrinio ar gyfer symptomau COVID-19 cyn eu hapwyntiad ers dechrau'r pandemig. Byddai unrhyw glaf a oedd yn dangos symptomau yn cael ei gyfeirio at Ivor Street, sef y ganolfan iechyd 'goch'. Ar y dechrau, byddai tymheredd pob claf hefyd yn cael ei gymryd er mwyn helpu i nodi unrhyw glaf yr amheuyd bod symptomau ganddo, ond roedd y gwasanaeth wedi rhoi'r gorau i'r arfer hwn yn ddiweddar yn unol â'r canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA). Dywedodd y staff wrthym mewn rhai achosion eu bod wedi rhoi trefniadau ar waith i gleifion y nodwyd eu bod yn unigolion agored i niwed neu'n gwarchod, megis mesur lefelau ocsigen, gyda'r claf yn aros yn ei gar ei hun a'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol. Roedd hyn yn helpu i ddiogelu'r cleifion rhag y risg o ddal y feirws oddi wrth bobl eraill yn y canolfannau iechyd. Cawsom wybod ei bod yn ofynnol i'r staff wisgo masg bob amser, a bod hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r canolfannau iechyd. Mae profion llif unffordd hefyd ar gael i aelodau o'r staff sydd am brofi eu hunain i gadarnhau nad ydynt yn heintus er mwyn helpu i leihau'r risg o groesheintio rhwng y staff a'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael arweiniad ar sut i wisgo a diosg PPE yn ddiogel a bod posteri yn codi ymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau cywir yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r practis. Cynhelir archwiliadau wythnosol o gyflenwadau PPE i sicrhau bod digon o stoc ym mhob un o'r canolfannau iechyd.

Cawsom gopi o bolisi Rheoli Gwaith Cadw Tŷ a oedd yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau amgylchedd glân ym mhob un o'r canolfannau iechyd. Dywedwyd wrthym fod gwaith glanhau ychwanegol yn cael ei wneud mewn ardaloedd mwy prysur yn ystod y pandemig, gan gynnwys dolenni drysau, canllawiau, cadeiriau a chyfarpar swyddfa er mwyn lleihau risgiau COVID-19 ac atal lledaeniad y feirws. Gwelsom dystiolaeth bod y contractwr glanhau allanol yn cynnal archwiliadau rheolaidd i fonitro cydymffurfiaeth a safonau glendid, gan nodi nad oedd unrhyw broblemau wedi dod i'r amlwg.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisiâu/prosesau corfforaethol i sicrhau bod y gwasanaeth yn barod ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion cyfarfodydd tîm y staff.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi diweddarau ei gynllun gweithredu parhad busnes arferol er mwyn amlinellu'r trefniadau a roddwyd ar waith i reoli a pharhau i weithredu'n ddiogel o ran y staff a'r cleifion yn ystod pandemig COVID-19 ac unrhyw bandemig a allai godi yn y dyfodol. Cadarnhaodd y staff fod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau wedi parhau i gael eu darparu yn y canolfannau iechyd ers dechrau pandemig COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys clinigau babanod, gwasanaethau rheoli clwyfau a phrofion cymhareb ryngwladol wedi'i normaleiddio (INR). Roedd adolygiadau rheolaidd, megis adolygiadau asthma, hefyd yn cael eu cynnal o bell gan glinigwyr pan fyddent yn briodol yn glinigol yn eu barn nhw. Cafodd gwasanaethau megis mân lawdriniaethau a chynllunio teulu eu hatal am gyfnod byr ar ddechrau'r pandemig, ond maent wedi ailgychwyn eto ers hynny. Mae nyrsys yn y canolfannau iechyd hefyd wedi rhoi tua 10,000 o frechiadau COVID-19 i gleifion yn ogystal â darparu eu gwasanaethau arferol.

Dywedwyd wrthym fod y galw ar y gwasanaeth wedi cynyddu o ganlyniad i effeithiau COVID-19 ar ofal eilaidd. Er enghraifft, roedd mwy o gleifion yn dod i'r canolfannau iechyd i gael gwasanaethau rheoli poen o ganlyniad i'r ffaith bod nifer o lawdriniaethau orthopedig wedi cael eu canslo. Roedd y gwasanaeth hefyd wedi cael problemau o ran sicrhau cymorth i gleifion gan wasanaethau iechyd meddwl a gwneud atgyfeiriadau at y gwasanaethau hynny yn ystod y pandemig.

Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod y bwrdd iechyd wedi cyfathrebu â nhw mewn perthynas â chanllawiau COVID-19 mewn modd effeithlon, a bod cydberthnasau rhwng meddygon teulu a meddygon ymgynghorol ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd yn gweithio'n dda. Mae'r canolfannau iechyd yn Morlais Health yn rhan o glwstwr Merthyr Tudful<sup>3</sup>. Dywedwyd wrthym fod y clwstwr wedi cyfarfod o bell bob wythnos drwy gydol y pandemig i gefnogi ei gilydd a llunio cynlluniau wrth gefn.

---

<sup>3</sup> Ystyr Clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol.

---

Dywedodd y staff wrthym fod yr holl gyfarfodydd yn cael eu cynnal o bell yn ystod y pandemig, gan gynnwys cyfarfodydd tîm staff, cyfarfodydd meddygon teulu partner a nyrsys, a chyfarfodydd llywodraethu clinigol. Cawsom dystiolaeth o gofnodion a gymerwyd mewn cyfarfodydd diweddar sy'n cael eu dosbarthu i bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod unrhyw aelodau sy'n absennol yn cael gwybod yr hyn a drafodwyd.

Cawsom wybod am y cymorth a oedd yn cael ei gynnig i'r staff ers dechrau pandemig COVID-19. Mae'r staff wedi cwblhau asesiadau risg COVID-19 i nodi'r aelodau hynny sy'n wynebu mwy o risg o ddal yr haint o bosibl a/neu a allai gael canlyniad andwyol pe baent yn dal yr haint. Roedd rhai aelodau o'r staff yn gweithio gartref o ganlyniad i hyn er mwyn helpu i ddiogelu eu hiechyd a'u llesiant. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod y mesurau a roddwyd ar waith gan y gwasanaeth wedi helpu i sicrhau bod lefelau staffio'n cael eu rheoli'n effeithiol yn ystod y pandemig heb amharu fawr ddim ar y gwasanaeth.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

---

## Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.



Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Morlais Health

Dyddiad y gweithgarwch: 06  
Gorffennaf 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r gwasanaeth roi sicrwydd i AGIC am y ffordd y mae'n nodi, yn asesu ac yn rheoli risgiau'n rheolaidd mewn perthynas ag iechyd, lles a diogelwch y staff a'r cleifion sy'n ymweld â'i safleoedd.	Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Asesiadau risg i gael eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd mewn ymateb i unrhyw newidiadau yn yr amgylchedd.	Kate Francis, Reolwr y Practis	30/12/2021

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Kate Francis, Rheolwr y Practis

Dyddiad: 30 Medi 2021